# Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008

**2008 mccc 1**

## 6 Atal dros dro gyfnod y cyfyngiad

(1) Rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer diystyru'r cyfnod pryd y mae atebolrwydd yn destun cais am iawn o dan y rheoliadau at ddibenion cyfrifo p'un a yw unrhyw gyfnod cyfyngiad perthnasol wedi dod i ben ai peidio.

(2) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at unrhyw gyfnod cyfyngiad perthnasol yn gyfeiriad at unrhyw gyfnod o amser ar gyfer codi achos sifil mewn perthynas â'r atebolrwydd a ragnodir gan Ddeddf Cyfyngiadau Achosion 1980 (p.58) neu unrhyw ddeddfiad arall neu odanynt.

(3) Caiff y rheoliadau ddiffinio at ddibenion darpariaeth yn unol ag is-adran (1) pan fydd atebolrwydd yn destun cais am iawn o dan y rheoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 14(3)**

**I2** A. 6 mewn grym ar 7.2.2011 gan O.S. 2011/211, ergl. 2, **Atod.**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, Adran 6.